

Enw'r Pwyllgor:	Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
Cadeirydd y Pwyllgor:	Karen Lewis
Cyfnod Adrodd:	Cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2025, ac Adolygiad Effeithiolrwydd y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Mai 2025

Penderfyniadau allweddol a materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor

Cyfarfod y Pwyllgor 5 Mawrth 2025

Egwyddorion ar gyfer cyhoeddi cyfarfodydd bwrdd a phwyllgorau'r sector cyhoeddus:

Clywodd y pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi safonau/egwyddorion yn ddiweddar. Roedd Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd wedi cynnal asesiad cydymffurfiaeth ar gyfer Llais. Mae'r sefydliad mewn sefyllfa gadarnhaol ac arweiniol o ran cydymffurfio. Cytunwyd ar rai camau gweithredu bach i wella cydymffurfiaeth â'r egwyddorion ymhellach.

Adroddiad Blynyddol Gwrth-dwyll Lleol: Derbyniwyd yr adroddiad blynyddol gydag adborth cadarnhaol ynghylch hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth. Nid oedd unrhyw achosion o dwyll. Roedd trafodaethau'n digwydd ynglŷn â'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Rheoli Risg Corfforaethol: Nododd y pwyllgor y gwaith datblygu parhaus ar y gofrestr risg gorfforaethol a'r gwelliannau pellach a wnaed. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod angen gwaith pellach o hyd, yn enwedig o ran cynnwys yr adroddiad eglurhaol i amlygu lle'r oedd newidiadau wedi digwydd, materion trwy eithriad a thueddiadau. Cytunodd y pwyllgor i fabwysiadu dull "plymio dwfn" i feysydd allweddol o risg yn y dyfodol.

Diweddariad Archwilio Mewnol: Mae'r rhaglen archwilio fewnol i'w chyflwyno a'i hadrodd yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Mehefin. Mae gwaith ar y gweill i ddylunio'r rhaglen waith ar gyfer 2025/26, a fydd hefyd yn cael ei hystyried yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Mehefin. Cadarnhaodd y pwyllgor y bydd yn ceisio cymryd rhan fwy gweithredol yn y gwaith o lunio a chwblhau'r rhaglen archwilio.

Traciwr argymhellion archwilio: Nodwyd cynnydd arwyddocaol o ran cyflawni argymhellion yr archwiliad. Roedd yr holl gamau gweithredu gan Archwilio Cymru mewn ymateb i broses adroddiad blynyddol a chyfrifon y llynedd wedi cael eu hateb ac roedd 21 o'r camau gweithredu archwilio mewnol wedi'u cwblhau. Bydd y pwyllgor yn parhau i graffu ar y camau gweithredu sy'n weddill.

Adroddiad Cyllid: Derbyniwyd yr adroddiad gan y pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi darparu £97,000 ychwanegol i gefnogi'r effaith fel rhan o ddyfarniad cyflog yr agenda ar gyfer newid. Roedd cyllid ychwanegol hefyd wedi'i ddarparu i gefnogi'r ystod o symudiadau swyddfa Llais.

Cyllideb 2025/26: Ystyriodd y pwyllgor y cynigion ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf a chadarnhaodd ei gefnogaeth yn barod i'w hystyried yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2025.

Digidol, Seiber a TG: Nodwyd bod hwn yn parhau i fod yn faes risg uchel ar y gofrestr risg gorfforaethol. Fodd bynnag, roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cyflawni achrediad hanfodion seiber. Cytunodd y pwyllgor y byddai'r maes hwn yn destun ei "blymio dwfn" cyntaf yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2025.

Adrodd arferol: Derbyniodd y pwyllgor amrywiaeth o'i adroddiadau arferol, a oedd y tro hwn yn canolbwyntio ar gwynion, rhoddion a lletygarwch a datganiadau o ddiddordeb.

Adroddiad a chyfrifon blynyddol 2024/25: Amlinellwyd y trefniadau ar gyfer cynhyrchu'r dogfennau, gan gynnwys amserlen ar gyfer cyflwyno'r dogfennau drafft erbyn dechrau mis Gorffennaf 2025 a'u cymeradwyo'n derfynol ym mis Hydref 2025. Cadarnhawyd ymgysylltiad gweithredol cynnar y pwyllgor yn ei ddatblygiad.

Adolygiad effeithiolrwydd pwyllgor 2025: Cynhaliodd y pwyllgor drafodaeth adolygiad effeithiolrwydd ar 7 Mai 2025. Cyn y sesiwn roedd aelodau'r pwyllgor wedi cwblhau rhestr wirio'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg.

Roedd yr aelodau wedi rhoi adborth ar effeithiolrwydd presennol a meysydd i'w datblygu/gwella ymhellach yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd yn datblygu rhaglen datblygu pwyllgorau, a fydd yn bwydo i mewn i'r cynllun gwaith ar gyfer y pwyllgor.

Y meysydd allweddol i'w datblygu y cytunwyd arnynt gan y pwyllgor oedd:

- gwelliant pellach ar adrodd ar risg
- ymgysylltiad pellach mewn gwaith parhad busnes

▪ ymgysylltiad pwyllgor ar gyfer sicrwydd ar y cyd â'r Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth ▪ mwy o gyfranogiad yn y rhaglen archwilio fewnol ▪ eglurder ynghylch y prosesau gwerthuso ▪ craffu pellach ar y meysydd seiber, TG ac asedau gwybodaeth.	
Materion sydd angen cymeradwyaeth neu ystyriaeth ar lefel y Bwrdd	
- Dim	
Risgiau a materion allweddol/Materion sy'n peri pryder	
- Nododd y pwyllgor y gwaith datblygu cyffredinol sy'n cael ei wneud ar fframwaith risg Llais. Mae gwaith pellach i'w wneud ar adrodd ar risg. Y pwyllgor cyntaf i'w gynnal ym mis Mehefin ar y maes risg allweddol o asedau seiber, digidol a TG/gwybodaeth.	
Busnes pwyllgor wedi'i gynllunio ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf	
Cytunodd y pwyllgor i gynnal cyfarfod ychwanegol ddechrau mis Mehefin i ystyried yr adroddiad blynyddol drafft a dogfennaeth y cyfrifon. Bydd y pwyllgor llawn nesaf yn digwydd ddiwedd mis Mehefin a bydd yn ystyried yr eitemau canlynol ar yr agenda: ▪ Ymchwiliad manwl (asedau seiber, digidol a TG/gwybodaeth) ▪ Adroddiad blynyddol a chyfrifon drafft ▪ Adroddiadau archwilio mewnol (gweddill rhaglen 2024/25) ▪ Drafft rhaglen archwilio fewnol ar gyfer y flwyddyn nesaf.	
Dyddiad y cyfarfod nesaf:	
	- Dydd Mercher 4 Mehefin 2025 am 08:30yb, cytunwyd ar gyfarfod ychwanegol i ystyried ymhellach yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Drafft - Dydd Mercher 25 Mehefin 2025 am 10am tan 4pm (gan gynnwys plymio dwfn)